




tud 3 Pobl a Phethe	tud 8 Teyrnged	tud 11 Y Gair Olaf	tud 12 Pel-droed
------------------------	-------------------	-----------------------	---------------------

LLWYBR NEWYDD

CAM PWYSIG YMLAEN

Yn dilyn blynyddoedd o ymgyrchu dyfal gan Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr a’r Cynghorydd Sir, Ellen ap Gwynn, mae’n dda gweld fod y cynllun i gael llwybr cerdded diogel at y fynwent a thu hwnt bellach yn cael ei wireddu.



Y Cynghorwyr Cymuned Megan Mai (Cadeirydd) a Catrin M.S. Davies (Is-gadeirydd) ar y darn tir sydd wedi ei ffensiō’n barod ar gyfer creu llwybr diogel.

Erbyn hyn mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cwblhau’r broses o brynu darn o dir gan Dafydd ac Ellyw Jenkins, Tanrallt, ac mae’n gobeithio cwblhau’r broses o brynu’r darn o dir y tu draw i’r fynwent i gyfeiriad Erglodd yn fuan iawn. Pan fydd y pryniant wedi ei gwblhau, bydd modd dechrau ar y gwaith o ddifri.

Meddai llefarydd ar ran y Cyngor Sir:
“Rydym wedi gweithio’n agos gyda’r tîrfeddianwyr i symud y cynllun yn ei flaen ac rydym yn hynod ddiolchgar iddynt am eu

cydweithrediad a’u cyfranogiad, a hebddynt ni fyddai dim o hyn wedi bod yn bosibl. Rydym hefyd yn werthfawrogi iawn o’r cyllid gan Grant Adfer Gwyrdd Llywodraeth Cymru sydd wedi helpu i gyflawni’r prosiect, gyda’r nod o wneud mannau gwyrdd yn fwy hygyrch, lleihau carbon drwy blannu coed a chael effaith gadarnhaol yn gyffredinol ar iechyd/lles meddyliol a chorfforol pobl leol.”

Croesawyd y newyddion gan y Cynghorwyr Cymuned Megan Mai a Catrin M. S. Davies, sy’n ddiolchgar iawn i Eifion Jones o’r Cyngor Sir am ei gyfraniad allweddol i’r prosiect. Ar ôl gorffen y gwaith, bydd y llwybr yn cysylltu â’r ffordd drol gyferbyn ag Erglodd a fydd yn galluogi i bobl gerdded i Daliesin ar hyd y ffordd waelod heb orfod mynd ar y ffordd fawr, sy’n beryglus iawn i gerddwyr. Felly cyn bo hir, bydd llwybr diogel at y fynwent a llwybr cerdded pleserus yn cysylltu’r pentrefi.

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Talleis, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

LLAETH LLEOL ORGANIG

ar gael yn y

Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth

www.laethjenkinsmilk.co.uk
07813 827 712
@cwtshllaeth

Hefyd ar gael yn
siopau
lleol.

Jenkins, Cerrigaranau Uchaf,
Talybont

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:

Gwyn Jenkins
(01970) 832560

Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henllys:

Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:

Cathryn Lloyd-Williams
cat_yfoel@hotmail.com

Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwys-fach/Ffwrnais:

Non Griffiths
(01654) 781264

Rhwydweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:

Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
832773

Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgriadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:

Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

Dylunio:

Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Plygu'r Papur:

Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

Dosbarthwyr:

Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones;
Carys Briddon, John Evans

Cyhoeddwyd gan
Gymdeithas Papur Pawb.
Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru.

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Delyth a Bleddyn, gyda Iolo'n dylunio. Diolch iddynt.

Golygyddion rhifyn Mai fydd Megan a Phil (gwynionydd@btinternet.com). Y dyddiad cau yw 6 Mai a bydd y papur ar werth ar 13 Mai.

Gohebiaeth

Angen Logo Newydd!

Mae angen eich help i feddwl am enw a logo newydd i'r prosiect 'O'r Mynydd i'r Môr'.

Mae datblygiadau mawr ar y gorwel! Mae copi caled o grynoded y Glasbrint ar gyfer y prosiect, sydd wedi cael ei ddatblygu a'i gyd-ddylunio gyda mewnbwn pobl leol, wedi'i fewnosod yn y papur hwn. Gallwch weld y Glasbrint cyfan ar www.ormynyddirmor.cymru.

Gyda'r prosiect wedi newid yn sylweddol ers y dyddiau cynnar, mae'n amser newid yr enw o 'O'r Mynydd i'r Môr' i enw sy'n adlewyrchu'r Glasbrint. Chi, y bobl leol yw'r rhai gorau i ddewis yr enw newydd, felly rydym angen eich help chi!

Gofynnir i chi gynnig eich syniadau am enwau newydd trwy e-bostio sian.stacey@ormynyddirmor.cymru erbyn y 10fed o Fai, neu drwy sganio y cod QR ar y copi caled o'r Glasbrint yn y papur. Bydd ein Grŵp Cyswllt yn creu rhestr fer gyda chyfle i chi bleidleisio am eich ffefryn ar ein gwefan, ein tudalen Facebook ac Instagram cyn diwedd Mai. Cadwch lygad ar y rhain am y datblygiadau diweddaraf.

Ydych chi'n ddylunydd neu'n artist lleol? Byddwn angen logo newydd i gyd-fynd â'r enw newydd. Mae cyllideb o £300 ar gael i ddylunio'r logo yn ystod Mehefin eleni. I fynegi diddordeb ebostiwch sian.stacey@ormynyddirmor.cymru er mwyn derbyn copi o'r briiff.

Diolch i chi am eich holl gymorth a chefnogaeth dros y misoedd dwytha. Os hoffech wybod mwy am y prosiect neu i drefnu sgwrs dros banded, mae croeso mawr i chi gysylltu.

Siân Stacey

sian.stacey@ormynyddirmor.cymru

Ffeibr Ceulanamaesmawr – diweddariad

Mae'r prosiect band eang cymunedol lleol sy'n cwmpasu Ceulanamanesmawr, Melindwr, Pontarfynach, Blaenrheidol ac Ygubor-y-Coed yn parhau i wneud cynnydd cadarnhaol.

Ar ôl llawer o amser ac ymdrech anfonwyd llythyrau i'r holl gartrefi o fewn yr ardaloedd hyn ym mis Ionawr eleni. Nod y llythyr oedd gwneud pobl yn ymwybodol o'r prosiect, darparu rhywfaint o wybodaeth am y cefndir ac annog unigolion i gofrestru eu diddordeb.

Mae angen i bob ardal gael 30 % o'r eiddo i gofrestru eu diddordeb cyn y gellir symud ymlaen. Mae pobl yn cael eu hannog i gofrestru eu diddordeb os nad ydynt wedi gwneud hynny eto a hefyd i ledaenu'r neges ymysg ffrindiau, teulu a chymdogion sy'n byw yn yr ardaloedd hyn.

Mae hwn yn gyfle cyffrous iawn i'n cymunedau a fyddai'n dod â gwell cysylltedd i rai o'n heiddo mwyaf gwledig. Er mwyn cofrestru neu ofyn cwestiwn, gyrrwch neges i'r cyfeiriad e-bost hwn: ceulanband@gmail.com.

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

DYDDIADUR

Cofiwch anfon manylion am
weithgareddau eich mudiad
neu'ch sefydliad at Carys
Briddon,
carysbriddon@btinternet.com
01970 832478
o leiaf ddeng niwrnod cyn y
rhifyn nesaf o'r papur.

EBRILL

- 10 Bethel 10 Gwilym Tudur (C)
Rehoboth 2 Gweinidog
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwys-fach 9.30
- 12 Cymdeithas y Chwiorydd
Rehoboth Taith Ddirgel
- 17 Bethel 2 Gwilym Tudur
Bethel 3 Te prynhawn yn y
Neuadd Goffa
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Cymun
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwys-fach 9.30 Cymun
Bendigaidd
- 21 Merched y Wawr Tal-y-bont
a'r Cylch (Brenda Jones)
- 24 Bethel 10 Geraint Evans
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwys-fach 9.30
Gweithdy peli hadau blodau
gwyllt 10–12 Cletwr
Stondinau pop-up 10–1
Cletwr
- 25 Cyfarfod cyhoeddus i drafod
dyfodol Llanfach 7.30
Llanfach
- 28 Gweithdy Ffeltio Gwlyb
(Ruth Packham) 6.30–9
Cletwr

MAI

- 1 Bethel 10 Uno â Seion
(Zoom)
Rehoboth 10 Gweinidog
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Hwylol Weddi
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwys-fach 9.30
- 6 Cyngerdd Sinfonia Cymru
7.30–9 Cletwr
- 8 Bethel 10 Gwilym Tudur (C)
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwys-fach 9.30
- 12 Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 7.30 Hwylol Weddi
- 13 'The Aberystwyth Wall'
(Gwilym Morus-Baird a Ben
MacCoed) 7.30–9 Cletwr
- 15 Bethesda, Tynant 2 Beti
Griffiths

Cletwr Dydd Mawrth 1–4
'Clonc a Gweu'

Cysegru Mynwent Tal-y-bont

Cynhelir gwasanaeth i gysegru
estyniad newydd mynwent
Tal-y-bont yng nghwmni'r
Parch. Joanna Penberthy, Esgob
Tyddewi, a gweinidogion capeli
ymneilltuol lleol, ddydd Mawrth
26 Ebrill am 11.00 o'r gloch y
bore.

Croeso i bawb

Pobl a Phethe



Priodas

Mwynhawyd diwrnod hapus ym mhriodas Llion a Catrina Jenkins, Maes y Dderwen, Ffwrnais, ar ddydd Sadwrn y 12fed o Fawrth. Cynhaliwyd y briodas yng ngwesty hardd Llyn Llanwddyn, gan edrych i lawr ar y llyn a'r gologfeydd godidog. Yn ogystal, cafwyd parti nos, a phawb wrth eu bodd.

Llongyfarchiadau mawr i'r ddau, yn ogystal ag Indi fach, a dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Peter a Gwen Manley, Woodlands, Tal-y-bont, ar farwolaeth brawd Peter, Haydn Manley, Llanfarian.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Elizabeth James, Cwmudw, Tal-y-bont, ar farwolaeth sydyn Dilwyn ei gŵr. Estynnwn gydymdeimlad â'r merched Eleri a Mererid a'r teulu i gyd. Roedd Dilwyn yn ffermwr uchel ei barch ac yn hyfforddwr cŵn defaid nodedig.

Trist iawn oedd clywed am farw Pat Harris, gynt o Winllan, Bont-goch, a adnabyddid fel Daisy i'r rhan fwyaf o'i ffrindiau. Cydymdeimlwn â'i phlant Anna a Sam, a'i gŵr Michael.

Cydymdeimlwn hefyd â

Janet Smith, Ger-y-nant, Bont-goch, sydd wedi colli ei thad yn ddiweddar.

Genedigaeth

Braf oedd clywed y newydd da ddiwedd Mawrth am enedigaeth Alffi Jac, mab bach i Elen, merch Mark a Lynn Ebenezer, Tal-y-bont, a Lee Truck ei chymar yng Nghapel Bangor. Croeso mawr i Alffi Jac a llongyfarchiadau i'r teulu i gyd.

Cantorion o fri

Llongyfarchiadau i'r disgyblion o Ysgol Pen-glais a fu'n canu gyda côr yr ysgol yng nghystadleuaeth Côr Cymru yng Nghanolfan y Celfyddydau,

Aberystwyth, a ddarlledwyd ar S4C. Roedd Heledd Davies, Gwynfryn, Tal-y-bont, yn canu unawd gyda'r côr.

Cyngerdd Cymru ac Wcráin

Profiad braf oedd gweld Sam Ebenezer yn perfformio fel un o sêr Cymru yn y cyngerdd arbennig yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, a ddarlledwyd ar S4C er mwyn casglu arian at yr ymdrech ddyngarol yn sgil y rhyfel yn Wcráin. Canodd Sam un o ganeuon Huw Chiswell, 'Rhywbeth o'i le', a oedd yn addas iawn o ystyried yr amgylchiadau. Bu'n rhaid i Sam deithio'n ôl i Lundain yn syth ar ôl y cyngerdd gan ei fod yn aelod o gast y ddrama 'Mousetrap' yn y West End.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Delyth Ifan, Llysalaw, Tal-y-bont, ar ei phenodiad i swydd newydd fel swyddog prosiect gyda Chyngor Llyfrau Cymru yn Aberystwyth.

Diolch

Dymuna Lisa Davies a'r teulu, Llety Ifan Hen, Bont-goch, ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a'r cyfraniadau hael a dderbyniwyd er cof am Emyr. Derbyniwyd y swm anrhydeddus o £2,225.

Cartref newydd

Braf clywed bod Karen a Pete Egan ar fin symud i Cerrig Hirion, Bont-goch. Cae Cerrig Hirion oedd enw'r cae lle adeiladwyd y tŷ, ac roeddent yn awyddus i roi enw Cymraeg ar y tŷ. Mwynhewch eich cartref newydd.

Colled Eglwys Elerch, Bont-goch

Daeth y newydd trist am farw'r Parch. Lyn Lewis Dafis fel ergyd i blwyfolion Bro Padarn, gan gynnwys Eglwys Elerch, Bont-goch. Dyma ran o deyrnged Richard Huws, Bont-goch, i'w gyfaill a'i gyn gydwethiwr:

'Roedd Lyn yn Offeiriad â gofal yng Ngrŵp Eglwysi Bro Padarn, gyda chyfrifoldeb arbennig dros gynulleidfaoedd Sant Ioan, Penrhyn-coch a Sant Pedr, Elerch, o dan arweiniad Deon yr Ardal Weinidogaethol Leol, Canon Andrew Loat. Yr oedd Lyn yn offeiriad plwyf poblogaidd, annwyl, uchel ei barch a thalentog y bydd gweld ei eisiau, nid yn unig gan ei gynulleidfa a'i blwyfolion, ond hefyd gan lawer o gydymdeithion yn ymestyn ymhell y tu hwnt i Gymru i'r gymuned ryngwladol. Yr oedd Lyn yn offeiriad plwyf gofalgarn a thosturiol. Fe oedd y meistr seremonïau yn aml yn y noson Gaws, Gwin a Chên yn eglwys Sant Pedr, Elerch, yn cyfuno ei dalent unigryw i ddiddanu, tra ar yr un pryd yn ein hatgoffa ein bod yno i hyrwyddo a thyfu achos nobl ... Yr ydym i gyd wedi colli cyfaill da iawn, a Christion ymroddedig.'

Gweler hefyd y deyrnged ar dudalen 8.



Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674



Mae pob perfformiad tua 50 munud o hyd, gydag amrywiaeth o gerddoriaeth, rhywbeth i bawb - nid dim ond ar gyfer y rhai sy'n caru cerddoriaeth glasurol!

Ond byddwch angen tocyn - Am ddim!
@<https://bit.ly/367JTN>
06.05.2022
19.30 - 21.00
01970 832 113 ✉ events@cletwr.com







Yn ystod pythefnos olaf y mis buom yn cymryd rhan yn Big Pedal 2021. Dyma'r her flynyddol i annog pawb i feicio, cerdded a sgwtera i'r ysgol. Ar bob diwrnod o'r her roedd ysgolion ar hyd a lled gwledydd Prydain yn 'cystadlu' i weld pwy allai gofnodi'r nifer fwyaf o ddisgyblion, staff a rhieni sy'n beicio, cerdded a sgwtera i'r ysgol. Mae hyn yn ffordd wych i gael mwy o'n disgyblion i deithio'n iach i'r ysgol ac mae'n ffordd syml o hybu iechyd corfforol ac iechyd meddwl hefyd. Er bod cynnal digwyddiad fel hyn dros bythefnos yn bwysig, rydym hefyd yn credu bod sefydlu arferion fel hyn yn cael effaith hirdymor gan fod llawer o blant yn cerdded, seiclo a sgwtera i'r ysgol bob dydd. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar i weld sut ydym wedi cymharu gydag ysgolion eraill ar draws gwledydd Prydain yn ystod y dyddiau nesaf.



Un o uchafbwyntiau'r pythefnos oedd cydnabod ymdrech arwrol Rosie o Flwyddyn 5 a'i thad Paul am seiclo 14 milltir o Bantperthog i'r ysgol. Mae Rosie'n llysgennad arbennig i'r ysgol ac yn hoffi codi ymwybyddiaeth am faterion amgylcheddol. Roedd hi hefyd wedi penderfynu defnyddio'r daith fel ffordd o godi arian i at elusen Achub y Plant a'r apel i helpu teuluoedd Wcráin – gwyh Rosie.



Llysgenhadon Efydd
Mae wedi bod yn fis prysur iawn o gadw'n heini yn yr ysgol. Yn ogystal â'r beicio a'r sgwtera cafodd Hari a Tomas, ein Llysgenhadon Efydd, hyfforddiant gwyh gan Stefano ac fe ddechreuodd y ddau drefnu gweithgareddau bywiog i weddill yr ysgol yn syth. Da iawn chi – roedd pawb wedi mwynhau'r gemau newydd yn fawr iawn.



Roedd hi'n hyfryd croesawu Mona Lewis, Swyddog Seiclo a Cherdded Eco Dyfi i'r ysgol yn ystod y mis. Trefnwyd gweithgareddau diddorol iawn ganddi i hybu beicio diogel ar y ffordd. Gobeithio y gallwn drefnu mwy o weithgareddau tebyg yn y dyfodol.



Ffair Wyddoniaeth
Mae ymweld â'r Ffair Wyddoniaeth yn y Brifysgol yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i blant hynaf yr ysgol. Mae'n ffordd ymarferol a hwyliog o ddysgu am wahanol agweddau o wyddoniaeth. Diolch yn fawr i staff y Brifysgol am drefnu'r digwyddiad, roedd pawb wedi mwynhau.

Tal-y-bont

Fel nifer o ysgolion ledled Cymru fe darodd hen haint Covid yr ysgol yn ystod mis Mawrth. Erbyn diwedd y mis, roedd bron i hanner y plant wedi colli ysgol oherwydd y feirws, ond ar y cyfan, doedd yr anhwylder ddim yn para'n hir. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r rhieni am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth yn ystod mis anodd arall a hoffwn ddiolch o galon i'r holl staff am fod mor hyblyg ac am ymateb mor bositif i'r sefyllfa. Croesi bysedd bod y gwaethaf drosodd erbyn hyn ac y byddwn yn gallu mwynhau Tymor yr Haf gyda'n gilydd.

Staffio

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch yn ddiffuant i Miss Sionna am ei gwaith yn yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hi ar fin dechrau cwmni gofal plant newydd ac rydym yn dymuno'r gorau iddi gyda'r fenter newydd. Mae'n siŵr y bydd galw mawr am ei gwasanaeth. Pob hwyl Miss Sionna a gobeithio y bydd cyfle i gwrdd yn y dyfodol agos.

Eisteddfodau'r Urdd

Llongyfarchiadau mawr i Rowan am gystadlu ar yr unawd piano yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Er na chafodd lwyddiant, roedd yn amlwg o ddarllen y feirniadaeth ei fod wedi plesio'r beirniad yn fawr iawn.



Diwrnod Trwynau Coch

Rydym mor ffodus o gael aelodau gweithgar iawn o'r Cyngor Ysgol ar hyn o bryd. Rydym yn gallu ymddiried ynddynt i gynnal cyfarfodydd yn annibynnol ac i drefnu gweithgareddau bywiog ar gyfer eu cyfoedion. I gyd-fynd gyda'r diwrnod hwn eleni, penderfynodd y criw godi arian drwy drefnu gweithgareddau addas ar gyfer pawb yn yr ysgol gan gynnwys sesiynau ffitrwydd gan Miss Watkin. Diolch yn fawr am bob ymdrech i gefnogi'r plant ac am gasglu cymaint o arian ar gyfer yr elusen bwysig yma. Diolch hefyd i Argos am y nawdd ac am yr anrhegion i'r plant, roedden nhw'n gwerthfawrogi'n fawr.



Wcráin

Diolch o galon i bawb am eich cefnogaeth yn casglu nwyddau er mwyn helpu ffoaduriaid Wcráin. Fel y gwelwch oddi wrth y llun, roedd yr ymateb yn syfrdanol ac fe gymerodd amser hir i lenwi'r fan. Diolch yn fawr i Jennie am gydlynw'r ymdrech hefyd.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD, REHOBOTH

Croesawyd Cynog Dafis, Llandre, i'r cyfarfod yn festri capel Rehoboth ar 8 Mawrth. Testun ei sgwrs oedd 'Sefydlu Cymdeithas yr Iaith' a chawsom ganddo hanes cychwyn y Gymdeithas yn 1962 yn dilyn darlith 'Tynged yr Iaith' gan Saunders Lewis a ddarlledwyd ar y radio adeg Gŵyl Dewi y flwyddyn honno. Yn y ddarlith roedd Saunders Lewis yn poeni'n fawr am ddyfodol yr iaith, a dywedodd mai 'trwy ddulliau chwyldro yn unig y bydd achub yr iaith'. Yn Ysgol Haf Plaid Cymru cyn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontarddulais yn haf 1962 sylweddolwyd na fyddai modd i aelodau Plaid Cymru ymgymryd ag ymgyrch tor-cyfraith, felly penderfynwyd sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg gyda'r bwriad o gymryd rhan mewn ymgyrchoedd i dorri'r gyfraith er mwyn dwyn sylw i'r ffaith nad oedd dim swyddogol yn bodoli yn y Gymraeg. Cynhaliodd yr aelodau y brotest gyntaf dros yr iaith ar bont Trefechan, Aberystwyth, ym mis Chwefror 1963, ac o hynny ymlaen bu nifer fawr o ymgyrchoedd ganddynt a sicrhodd fod y Gymraeg yn dod yn iaith weladwy a defnyddiol yn ein bywyd bob dydd ac a sicrhodd hefyd ddyfodol mwy llewyrchus iddi. Diolchwyd yn gynnes i Cynog am rannu profiadau ac ymgyrchoedd aelodau Cymdeithas yr Iaith dros y blynyddoedd ac sydd erbyn hyn wedi bodoli am bron i drigain mlynedd.

Cronfa Eleri 2021

Rhwng 1998 a 2021 derbyniodd y gronfa geisiadau am gymorth o dros £622,000 gan 318 o ymgeiswyr. Rhoddwyd cymorth i dros 200 ohonynt, gan roi cyfanswm o dros £346,000 (cyfartaledd o tua £1,000 y cais). Y cais unigol mwyaf a dderbyniwyd mewn un flwyddyn oedd un am £15,000 a'r cymorth unigol uchaf a ddwyfarnwyd mewn un flwyddyn oedd £7,500.

Mae natur y cynlluniau a gefnogwyd wedi bod yn amrywiol iawn. Cyfrannwyd at adnewyddu adeiladau; prynu offer megis cadeiriau, llwyfannau ac offer uchelseinydd; offer chwaraeon a gwella adnoddau clybiau; adeiladu meysydd chwarae i blant; prynu offer i wasanaeth papur i'r deillion; datblygu cylchgronau ysgol a phapurau bro; a myrdd o gynlluniau eraill. Nid yw rheolau Cronfa Eleri yn caniatáu cefnogaeth refeniw (h.y. costau cynnal rheolaidd) i fudiadau a chymdeithasau – dim ond cefnogaeth i gynlluniau penodol.

Cyfanswm y gronfa ar gyfer 2021 oedd £20,428. Gweithgareddau a gefnogwyd: Clwb Pêl-droed Ieuencid Tal-y-bont; Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch; Maes Chwarae Rhydypennau; Sioe Tal-y-bont; Neuadd Rhydypennau; Ysgolion Tal-y-bont, Craig-yr-Wylfa, Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Penllwyn; Clwb ar ôl ysgol Tal-y-bont.

Bydd y gronfa ar agor i geisiadau ar gyfer y flwyddyn 2022 ddiwedd Mis Tachwedd 2022. Manylion pellach ar wefan Cronfa Eleri (cronfaeleri.cymru).

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

William John Jenkins, (Will) Ynyseidiol, Ffwrnais



Bu farw William Jenkins, gynt o Penrhwyngwyn, Tre'r-ddôl ar y 5ed o Fawrth, lai na phythefnos ar ôl dathlu ei ben-blwydd yn 101 mlwydd oed.

Fe'i ganwyd yr hynaf o dri o blant i William Morgan a Margaret Jenkins yn Ynysgreigiog. Cafodd ei addysg gynnar yn Ysgol Eglwys-fach ac yna ym Machynlleth gan fynd i'r ysgol honno ar y trênn, a lletya uwchlaw siop sglodion am yr wythnos cyn dod adref.

Bu'n amaethu drwy gydol ei oes a doedd dim yn rhoi cymaint o bleser iddo na phlygu sietyn yn ddestlus neu droi'r gwys gyntaf a fyddai, heb os, yn berffaith syth. Os gwneud, rhaid ei wneud yn iawn – dyna fyddai'i agwedd wrth weithio'r tir. Roedd wrth ei fodd yn tyfu tatw ac wedi eu dethol a'u pwysu, eu cludo i Fachynlleth a'u gwerthu o ddrws i ddrws yn ogystal â siopau'r dref. Byddai'n gwneud hyn bob wythnos, ac roedd darganfod hanes ac achau ei gwsmeriaid yn bwysig iawn iddo. Yn wir, hanes lleol oedd un o'i brif ddiddordebau ac yn aml mi fyddai'n gwybod yn well na chi eich hun hen gysylltiadau teuluol a'ch llinach bersonol.

Yn 1947 priododd Shan, symud i Ynyseidiol a chael dau o blant, Margaret a David. Yn ddiweddarach symudodd y teulu i Penrhwyngwyn. Bu Will yn ffodus o'i iechyd drwy gydol ei oes ond bu ef a'r teulu yn ofalus o Shan yn ei chystudd hir.

Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yn Amlogfa Aberystwyth ar y 22ain o Fawrth gyda'r cyfraniadau er cof amdano yn mynd tuag at brynu adnoddau i nyrsys y Borth a fu mor dda wrth Will ac yn arbennig wrth Shan yn ei gwaeledd.

David Jones, Bwlchdyddwyallt.

Ydych chi'n dechrau busnes? Ry' ni'n siarad yr iaith!

Mae Busnes Cymru yn darparu hyfforddiant ar-lein a chynghor 1-am-1 o bell gydag ymgynghorydd profiadol i'ch cefnogi wrth i chi ddechrau eich busnes. Gallwn eich cynghori ar bob agwedd ar ddechrau busnes yn cynnwys arbenigedd Adnoddau Dynol, Cyllid ac adnabod ffynonellau ariannu.

I ddechrau eich siwrnau i fyd busnes yn y Gymraeg rhwch alwad nawr ar: **03000 6 03000**

Rhowch gynnig ar un o weminarau rhad ac am ddim Busnes Cymru – Dechrau a Rhedeg eich Busnes. Dilynwch y ddolen isod i archebu eich lle: <https://bit.ly/3EMIKXo>

I ddarganfod mwy am ein cefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ewch i: <https://bit.ly/3DJLjlm>

#RydymYma

03000 6 03000

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales



PORTREADAU ARVID



Roedd 'Dic y Lein' (Richard Williams Jones) yn dipyn o dderyn ac yn 1982 aeth J. R. Jones ynghyd â'r Cynghorydd John Davies, Dolcletwr, draw i'w gyfweild yn ei gartref yn Nhref-ddôl ac fe dynnwyd y llun gwyh hwn gan Arvid. Dyma ddarn o'r cyfweiliad:

Ac yntau ymhell dros ei bedwar ugain ni allem ond rhyfeddu at ei gof nodedig, ei wybodaeth eang, a'i resymeg glir. Byddai'n gofyn sawl rhifyn o *Bapur Pawb* i gynnwys y cyfan a draethwyd y noson honno, ac wrth ddedhol o'r blwch casét gadawn iddo adrodd stori'i fywyd, a'i sylwadau craff ar ein problemau cyfoes, yn ei iaith lafar naturiol, a'r arddull sydd mor nodweddiadol ohono:

'Yn y Dolau-bach y ces i fy ngeni wyddoch, a nhad yn gweithio ar Lein y Cambrian [felly 'Dic y Lein'] am ddau swllt ar bymtheg yr wythnos, gyda dau ddwrnod o wylie ar wahân i Ddydd Nadolig a Gwener y Groglith. Mae'n debyg mai tŷ unnos oedd y Dolau-bach i ddechre, ac roedd mam cyn priodi yn laethferch ym Mhlas

y Gwynfryn, ond mi fuodd farw pan own i ond wyth oed. Fe symudodd nhad i le o'r enw Field View a alwyd ar ôl hynny yn Glanystwyth, ac fe gafodd gynnig prynu'r lle am gant a thrigen o bunnoedd, ond sut galle'r hen greadur a'i gyflog mor fach? Ches i fawr ddim o addysg ond "y bitter school of experience", mi fues dipyn yn yr ysgol tan yn ddeuddeg oed ond ddysges i ddim yno. Rodd yno sgwlyn go ddiffaith ac yn credu mai sgym y ddaear oedden ni, am ein bod yn dlawd wyddoch a'r cwbl oedd yn cael ei ffusto a'i ffusto ac wedyn i rifetio i'n pennau oedd trefn y capitalists yn y wlad ma, ac mae'n gwaith ni fyddde ymladd i gadw rheiny, sawl gwaith y ddi'r geiriau "... dimensions of our Empire and the wars we have won". Dyna chi addysg! Dim gair o Gymraeg wyddoch, yn ysgol Sul yr Hen Gapel y dysgais i ddarllen ac rwy'n ddyledus iawn i'r ysgol fach honno. Mi es yn was bach i Gaergywydd am wyth bunt a chweugain y flwyddyn, mi godes bunt o nghyflog i helpu nhad, a thriswllt i fynd i Sioe Tal-y-bont ac roedd y gweddill yn troi i mi Galangaeaf, ond fe fyddde ffermwyr y cylch yn dod â'u gwartheg yno at y tarw, a gan mai fi fyddde'n gollwng y tarw o'r sied mi fyddwn yn cael ceiniog neu ddwy o lwc bob tro, a wir down i byth yn brin o geinioge. Fe fues i'n byw yn eitha main ar grefydd a photes llaeth separetor – a wir, fechgyn, doedd y ddau ddim yn cymysgu. "I have seen more dinner-times than dinners". Rwy'n cofio mynd yn was ger Swyddffynnon, yr adeg honno bechgyn a merched yn cael eu cyflogi ar y stryd yn Aberystwyth bob Llun Calangaeaf, ac aros yno fel anifeiliaid mewn mart yn gobeithio y ddi rhywun i gynnig lle cyn nos. Wedyn mi fues yn gwasanaethu yn Bryngwyn-isa, Pwll-glas a Lletyllwyd, ac yna fe ymunes â'r Army, ac rwy'n cofio Caledfryn Evans a finne yn mynd gyda'n gilydd i'r Rhyl, ond wir do ni ddim yn lico'u stumie nhw fanno, ac fe weithies i nhiced i ddod allan ar ôl pum mis.'

Sut y llwyddoch chi, Richard, i ddod yn rhydd o'r fyddin?

'O! fechgyn bach "by a method known to me" wyddoch, ac ar ôl cael 'y nhraed yn rhydd mi fues yn helpu gyda'r llafur yn y Briciard, ac wedyn cyflogi yn Alltgochymynydd ...

Mi adawes Allt-goch ar ôl blwyddyn a hanner.

At Allt Farm

There's a damn good living,

Sheep's meat, and sometimes pudding.

Half enough work and too far from beer

Yes by damn I'll move from here.

Mi fues wedyn ar nifer o ffermydd ... ac am rai blynydde yn y gwaith glo yn y Tymbl. Wyth swllt a thair ffyrlling y tyrn oedd fy nghyflog i yno, ychydig dros ganpunt yr wythnos. Adeg streic 1926 chwe mis o arian ddi ac wedyn ar y plwy. Y deg mlynedd olaf cyn ymddeol yn wyth a thrigain fe dreuliais y rheiny yn gweithio'n y coed, ac rwy'n cael mwy o bensiwn heddi nag a ges i o gyflog erioed.'

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

**Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)**

Ystafelloedd ar gael

**01970 832245
garethwhitelion@outlook.com**


Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



**01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk**

Teyrnged i Lyn Lewis Dafis



Trist iawn yw cofnodi marwolaeth y Parch. Lyn Lewis Dafis yn 61 oed ar 15 Mawrth. Er ei fod yn adnabyddus i lawer yn yr ardal hon, yn ystod y blynyddoedd diwethaf fe'i cysylltwyd yn bennaf gydag Eglwys St Pedr, Bont-goch. Yn dilyn, mae rhan o'r deyrnged iddo a draddodwyd yn y gwasanaeth coffa yn Eglwys Llanbadarn gan ei gyfaill Richard Owen. Rydym yn ddiolchgar i Richard am ei ganiatâd i gyhoeddi'r deyrnged yn Papur Pawb.

“Fe anwyd Lyn ym Mynachlog-ddu, Sir Benfro, yn 1960 yn fab i Dai a Sally Davies. Cafodd ei addysg gynnar yn Ysgol Gynradd Mynachlog-ddu, ac wedyn ymlaen i Ysgol y Preseli yng Nghrymmych. Oddi yno fe aeth i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth a graddio yn y Gymraeg yn 1981. Bu'n llyfrgellydd yn sir Benfro a Morgannwg Ganol ac yn 1989 fe'i penodwyd i swydd yn y Llyfrgell Genedlaethol, ac yn y Llyfrgell y bu nes iddo adael yn 2014. Fe wnaeth ei gyfraniad mwyaf yn y Llyfrgell pan fu datblygiadau mawr yn y technegau o ddigido deunydd er mwyn ei roi ar y We, a thrwy hynny sicrhau fod y deunydd ar gael yn hwylus i gynulleidfa eang. O 2009 tan 2014, Lyn oedd Pennaeth yr Uned Datblygu Digido yn y Llyfrgell.

Tra oedd yn Aberystwyth fe fu'n weithgar gyda sawl mudiad. Fe fu'n gynghorydd tref am bedair blynedd (2008-12), ac fe fu'n undebwr llafur brwd ac effeithiol iawn yn y Llyfrgell. Fe olygodd *Tafod y Ddraig*, cylchgrawn Cymdeithas yr Iaith Gymraeg am flynyddoedd lawer, a hefyd y *Llan*, newyddiadur yr Eglwys yng Nghymru. Ond y tu allan i'w waith ei brif ymrwymiad oedd ei weithgarwch yn Eglwys y Santes Fair. Erbyn iddo gyrraedd Aber, roedd y Bedyddiwr o Fynachlog-ddu wedi troi'n eglwyswr brwd a gweithgar. Yn 2014 fe adawodd Lyn y Llyfrgell a mynd am flwyddyn i Goleg St Mihangel yn Llandaf i'w hyfforddi'n offeiriad. Fe'i hordeiniwyd yn ddiakon yn 2015 ac yna'n offeiriad yn 2016. Yn haf 2015 fe ddaeth i fyw i Benrhyn-coch, gan wasanaethu yn bennaf yn Eglwys St Ioan, y Penrhyn ac Eglwys St Pedr, Bont-goch, yn rhan o grŵp o bedair eglwys wedi'i ganoli ar Lanbadarn. Ym Mehefin y llynedd fe'i gwnaed yn Weinidog Cynorthwyol yn Ardal Weinidogaethol Bro Padarn ac yn ogystal yn Swyddog y Gymraeg a Dwyieithrwydd Esgobaeth Tyddewi, swydd oedd yn ei siwtio i'r dim.

Beth oedd nodweddion cymeriad a phersonoliaeth Lyn? Yn gyntaf roedd ganddo allu meddyliol anghyffredin. Welais i neb oedd yn gallu meistrolï hantodion pwnc mor drwyadl a chyflym â Lyn. Pan oeddech chi'n trafod gwahanol bynciau gydag ef, boed yn grefydd, hanes crefydd, gwleidyddiaeth neu beth bynnag, roedd hi'n amlwg ei fod wedi darllen yn helaeth a beirniadol yn y maes, ac yn glir am ei safbwynt. Ac os holech chi gwestiwn roedd o'n gallu rhoi ateb clir i chi. Un o ddiddordebau mawr Lyn oedd iaith ac ieithoedd. Wrth ddilyn ei radd Gymraeg, fe wnaeth lawer iawn o'r cyrsiau iaith oedd ar gael megis Gaeleg yr Alban, Gwyddeleg a Llydaweg. Ac fe barhaodd y diddordeb hwnnw.

Nodwedd arall gwbl hanfodol i'w bersonoliaeth oedd yr asbri a'r direidi dihafal oedd yn pefrio ohono. Roedd ei ddireidi a'i feddwl gwreiddiol yn cyfuno'n aml i greu pethau cwyrcei iawn, ac

eithriadol o ddoniol. Mae llawer ohonoch chi'n cofio Blog Dogfael a fu'n rhedeg am rai blynyddoedd tua dechrau'r ganrif. Fu yna erioed ddim tebyg iddo.

Roedd Lyn yn ei chyfri'n anrhydedd cael ei dderbyn i urdd Derwydd yn Eisteddfod Tyddewi 2002, a'i enw yng ngorsedd wrth gwrs oedd Dogfael. Dawn arall oedd yn amlwg iawn yn Lyn oedd y ddawn i berfformio, ac fe rannodd yn rhydd iawn o'i ddawn i lu o gymdeithasau a mudiadau dros y blynyddoedd. Arwain noson, darlith i gymdeithas leol, arwain flugeisteddfod, cynnal cwis – roedd pobl ar ofyn Lyn yn aml am ei fod yn berfformiwr mor ddawnus a gwreiddiol. Mae hyn yn dangos hefyd pa mor barod oedd Lyn i helpu eraill: anaml iawn y byddai o'n gwrthod cais i helpu cymdeithas neu fudiad. Oedd roedd o'n mwynhau gwneud, ond roedd o'n golygu cryn lafur iddo, achos roedd o wastad yn paratoi'n drwyadl ar gyfer pob dim. Ac roedd Lyn yn ddyn pobl. Roedd ganddo ddawn naturiol i ymwneud gyda phobl o bob math, o'r hyna i'r fenga, beth bynnag eu hiaith, beth bynnag eu daliadau. Welais i erioed neb efo personoliaeth mwy enillgar nag oedd gan Lyn. Ond nid dyn cyhoeddus yn unig oedd o. Yn ei waith bob dydd, yn ei waith fel swyddog undeb, yn ei waith yn yr Eglwys, fe wnaeth Lyn lu o gymwynasau tawel ag unigolion. Roedd o'n wrandawr sensitif ac yn ddoeth ei gyngor.

Yn Eglwys y Santes Fair, fe ddaeth yn darllenydd lleyg, ac wedyn wedi gadael y Llyfrgell, dod am y saith mlynedd olaf hyn yn weinidog yn y cylch hwn. A gweinidog oedd ei hoff ddisgrifiad ef o'i swydd. Bellach roedd o'n gallu cysegru ei holl ddoniau, ei allu, ei ddawn berfformio a'i ddawn i ymwneud â phobl, i wasanaethu ei Arglwydd. Fe fydd colled enbyd ar ei ôl yn yr ardaloedd hyn yn enwedig ym Mhenrhyn-coch a Bont-goch. Roedd o'n gymeradwy gan bawb ac yn llwyddo i dynnu pobl at ei gilydd

Richard Owen, Penrhyn-coch.

STORFA HUNAN FYNEDIAD

UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

MONITRO DIOGELWCH
24 AWR

Storfa Cartref & Busnes

Bocsas a Bubblewrap

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

www.midwalesstorage.co.uk

Tel: 01654 703592

Heol Y Doll, Machynieth, SY20 8BQ

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com

Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cyfarfod Misol Mis Mawrth 2022

Cynhaliwyd cyfarfod Mis Mawrth Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr ar nos Iau, 31 Mawrth 2022, yn y Neuadd Goffa gyda phedwar o'r Cynghorwyr yn bresennol ynghyd â'r Clerc, Mr Rab Jones. Cychwynnodd y cyfarfod gyda'r Cadeirydd, Cyng Megan Mai, yn estyn croeso cynnes i bawb. Cadarnhaodd y Clerc fod pedwar o'r Cynghorwyr yn ddigon i gynnal cyfarfod cyfreithlon.

Swydd y Clerc

Rhoddodd Cyng Megan Mai ddiweddariad ar y broses o edrych am Glerc newydd i wasanaethu'r Cyngor Cymuned. Cadarnhaodd fod un person lleol wedi dangos diddordeb cyn penderfynu peidio â chynnig am y swydd. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i geisio edrych am Glerc newydd unwaith eto ar ôl y cyfarfod blynyddol ym Mis Mai a chytunodd Rab Jones ei fod yn fodlon parhau yn y swydd am dri mis arall.

Etholiad y Cyngor Cymuned

Eglurodd y Clerc y trefniadau at Etholiad y Cyngor Cymuned ar 5 Mai 2022 a bod rhaid i'r Cynghorwyr presennol i gyd gynnig am sedd ar y Cyngor Cymuned newydd. Mi fydd y Cyngor Cymuned newydd yn cwrdd am y tro cyntaf ar Nos Iau, 19 Mai 2022.

Sefyllfa Coronafeirws

Yn absenoldeb y Cynghorydd Sir, Cyng Ellen ap Gwynn, nid oedd diweddariad ar y sefyllfa ddiweddaraf yng Ngheredigion gyda'r coronafeirws.

Mynwent Tal-y-bont

Eglurodd y Cadeirydd, Cyng Megan Mai, y bu'n rhaid gohirio seremoni cysegru yr estyniad i'r fynwent unwaith eto oherwydd salwch Esgob Tyddewi. Cadarnhaodd fod y seremoni wedi cael ei haildrefnu am yr ail dro ar ddydd Mawrth 26fed Ebrill 2022 am 11:00yb.

Gohebiaeth

Cyflwynodd y Clerc gynnwys e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Mr Eifion Jones ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer creu llwybr rhwng Tal-y-bont a Thaliesin. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i estyn gwahoddiad i Eifion fynychu cyfarfod misol nesaf y Cyngor er mwyn trafod manylion y llwybr.

Materion Eraill

Cafwyd diweddariad ar nifer o faterion eraill. Yn dilyn cynnig gan y Cadeirydd, Cyng Megan Mai, cytunwyd archebu baner Ddraig Goch newydd ar gyfer y polyn o flaen y Neuadd Goffa. Mynegodd Cyng Nest Jenkins bryder am gyflwr y Patshyn Glas yn dilyn gwaith diweddar gan Dŵr Cymru a chytunwyd i gysylltu gyda'r cwmni a gofyn iddynt gywiro'r sefyllfa.

Cadarnhawyd y bydd cyfarfod misol nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal yn y Neuadd Goffa ar Nos Iau, 28 Ebrill 2022.

Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr



Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com



Y Caffi

Tasech chi'n digwydd dod i'r caffi ar hyn o bryd byddech yn gweld nifer o wynebnewydd y tu ôl i'r cownter ac yn y gegin. Digon i greu tîm pêl-droed pump-bob-ochr! Dewch i mewn i ddweud helo wrthyn nhw, ac i flasau'r bwyd newydd sy'n dod o'r gegin. Yn ystod yr wythnosau sydd i ddod byddwn yn ymestyn y ddewislen i ddangos sgiliau ein tîm newydd. Ac os bydd y tywydd yn braf, beth am eistedd tu allan yn y gazebo yn joio'r haul?

Ymddiheuriadau i unrhyw un sydd wedi dod i'r caffi yn ddiweddar ac wedi darganfod ei fod e ar gau! Yn anffodus mae nifer o'n staff a'n gwirfoddolwyr wedi dal y Pla, ac wedi bod yn hunanynysu gartref. Er bod y Llywodraeth wedi dweud nad oes dim gofyniad cyfreithiol i wisgo mygydau erbyn hyn, gawn ni eich annog i chi wisgo mwgwd yn y siop, os gwelwch yn dda? Dyma'r ffordd hawsaf i chi ac i'n staff ni i osgoi dal Covid, a chadw'r siop ar agor.

Digwyddiadau

Bydd nifer o weithgareddau yn digwydd cyn bo hir. Beth am pizza fegan? Bydd Sue o Iwtopia yn dod ar 22ain o Ebrill, 6-9 y.h. Manylion llawn ar Facebook.

A bydd llwyth o gerddoriaeth hefyd: ar 6ed o Fai, fe fydd 'Mainly Village Halls' gan Sinffonia Cymru – Cyngerdd rhad ac am ddim! 13eg o Fai bydd Gwilym Morus Baird yn cyflwyno 'The Aberystwyth Wall' – 'Cewch eich cludo gan mlynedd i'r dyfodol gyda'r stori hyfryd hon o gysylltiad dynol a chymuned yn dilyn argyfwng hinsawdd, yn seiliedig ar chwedl Cantre'r Gwaelod.'

A chrefftau? 14eg o Ebrill, bydd sesiwn crefft y Pasg, ac ar 21ain o Ebrill, sesiwn Printiau Leino, wedyn 28ain o Ebrill bydd gweithdy Ffeltio Gwlyb. Manylion eto ar Facebook.

Ac, wrth feddwl am y Pasg, mae dewis eang o wyau ar gael yn y siop. Rhai rhad, rhai drud (ond gwerth bob ceiniog) a rhai fegan hyd yn oed. Dewch yn llw!

YSGOL SUL BETHEL

Ar ddydd Sul, 27ain o Chwefror, croesawyd aelodau Ysgol Sul Bethel yn ôl i'r capel yn dilyn seibiant o dros ddwy flynedd o ganlyniad i'r pandemig. Braf oedd gweld cynifer o blant yr ardal wedi ymuno yn yr hwyl, yn aelodau hen a newydd.

Byddwn yn cwrdd bob pythefnos o hyn ymlaen, gyda'r sesiwn nesaf ar y 10fed o Ebrill gyda'n gweinidog newydd, Gwilym Tudur a'i wraig Alex. Mae croeso i unrhyw blentyn o unrhyw oed ymuno â ni, cysylltwch â Mair Nutting am fwy o wybodaeth.



Aelodau'r Ysgol Sul yn eiddgar i ailgydio yn y gweithgareddau.

YR URDD YN GANT OED



Dros y blynyddoedd bu'r Urdd yn cynnal pob math o gystadlaethau eisteddfodol ond hefyd rhai o'r byd chwaraeon. Yn 1986 enillodd tîm Aelwyd Tal-y-bont a'r cylch gystadleuaeth bêl-droed ym mhencampwriaethau'r Urdd.

Holwyd dau o'r tîm buddugol, sef Dylan Jones y capten a Garmon Gruffudd, am eu hatgofion o'r diwrnod.

Roedd y ddau yn pledio nad oeddent yn medru cofio fawr ddim am yr hyn a ddigwyddodd ond cawsom enwau'r chwaraewyr ac ychydig o fanylion am y gêm a chwaraewyd ar gaeau Blaendolau cyn rownd derfynol Cwpan Pantyfedwen, sef y gwpan ar gyfer yr aelodau hŷn.

Fel mae'r llun yn ei awgrymu, doedd hwn ddim yn dîm sefydlog a'r unig gyfarwyddiadau o ran y cit oedd i bawb wisgo crys coch.


Roedd y bechgyn i gyd yn dod o ardal Tal-y-bont ac eithrio'r golwr cydnerth Michael Davies o Aberystwyth. Yn y ffeinal, chwaraewyd yn erbyn tîm dawnus a threfnus Aelwyd Nefyn. Ar un adeg roedd Tal-y-bont yn ennill o ddwy gôl i ddim ond fe darodd Nefyn yn ôl, gan sgorio ddwywaith cyn y diwedd. Bu bron iddi fynd i giciau o'r smotyn ond o drwch blewyn enillwyd y gêm 3-2 mewn amser ychwanegol.

Nid oedd y gwpan mor fawr â Chwpan Pantyfedwen ond roedd y bechgyn wrth eu boddau gyda'r fuddugoliaeth.

Trist yw nodi bod un o'r tîm, Dyfed Evans, wedi'n gadael ni llynedd.

Dyma restr o'r chwaraewyr:
Rhes ôl o'r chwith i'r dde: Dyfed Evans, Rhydian Jones, Dylan Morgan, Aled Jones, Lefi Gruffudd, Garmon Gruffudd, Eirian Jones, Dafydd Glyn Jones.
Rhes flaen: Aled Jenkins, Barry Rowlands, Dylan Jones, Huwel Manley, Michael Davies.

Cafwyd cais i nodi enwau'r rhai oedd yn y llun o Aelwyd yr Urdd a gyhoeddwyd yn rhifyn Mawrth. Felly, diolch i Ceri Jones a Nia Richards, dyma nhw.



Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch



Ar nos Iau, Mawrth 24, croesawyd Siân Wyn Siencyn, Talgarreg, atom a thestun y noson oedd 'Heddwch Nain /Mam-gu'.

Yn 1923 ac yn dilyn cyfnod erchyll y Rhyfel Byd Cyntaf roedd yna ddymuniaid cryf ymysg menywod Cymru am heddwch. Trefnwyd deiseb ganddynt yn galw ar fenywod America i ddwyn perswâd ar yr Unol Daleithiau i ymuno â Chyngrair y Cenhedloedd er mwyn hyrwyddo heddwch. Yn rhyfeddol, llofnodwyd y ddeiseb gan dros 390,000 o ferched a'r hyn a gawsom gan Siân oedd yr hanes difyr ynghlwm â threfnu'r ddeiseb a'i chludo i America. Ar hyn o bryd mae'r ddeiseb dan glo a chadw yn Amgueddfa Smithsonian Washington UDA a bron i ganrif yn ddiweddarach mae trefniadau ar y gweill i ddathlu canmlwyddiant yr ymgyrch anhygoel hon.

Diolchwyd i Siân am gyflwyno'r hanes rhyfeddol hwn mewn modd bywiog gan godi chwilfrydedd pawb ynglŷn â phwy oedd wedi arwyddo'r ddeiseb. Oedd yna ferched o Dal-y-Bont wedi arwyddo'r ddeiseb? Oedd Nain wedi arwyddo'r ddeiseb? Oedd Mam-gu wedi arwyddo'r ddeiseb?
Ar ôl cyflwyno gair o ddiolch i Siân mwynhawyd paned a sgwrs. Roedd y noson yng ngofal Mair Nutting.

Gwasanaeth argraffu diguro

Holwch Paul
am bris!
paul@yloffa.com
01970 832 304

yloffa
Talybont
Ceredigion
SY24 5HE
www.yloffa.com

CANOLFAN
M.O.T.

HUW LEWIS

M.O.T.
CENTRE

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM

TEIARS

HUW LEWIS

TYRES

Glanyrafon

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Rhodfa'r Parc

Hanner Marathon Caerdydd



Bu Gwenallt Llwyd Ifan, Llysalaw, Tal-y-bont, yn rhedeg yn ras hanner marathon Caerdydd ddiwedd Mawrth. Dyma ei argraffiadau ar ôl y profiad:

‘Aeth dwy flynedd heibio ers i ras hanner marathon Caerdydd gael ei rhedeg ar hyd strydoedd y ddinas. Hir fu’r dyheu am weld y ras eiconig hon yn ei hôl, ac ni chawsom ni’r rhedwyr na’r cefnogwyr ein siomi. Daeth dros bum mil ar hugain i redeg, a theimlai fel petai cymaint â hynny o gefnogwyr ar bob cornel yn annog pawb ymlaen. Awyrgylch carnifâl go iawn, gyda baneri a cherddoriaeth ymhob man a phlant bach â phowlenni o *jelly babies* i’r rhai a oedd angen sbardun bach. Profiad gwych i bawb a hwb mawr i’r ddinas. Hanner marathon Caerdydd Hydref 2022? Byddwn ni yno!’

Y Gwanwyn, Gwenyn, Gwyliau a Garddio gyda Cletwr!



Pwll pryfed hofran

Ydi, mae’r gwanwyn wedi cyrraedd ac mae garddwyr Cletwr wrthi’n cynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan gadw gwenyn a pheillwyr eraill mewn golwg afraid dweud! Fel a welwch chi yn y llun, rydyn ni wedi creu pwll i bryfed hofran fridio ynddo (rhywbeth hawdd iawn i’w wneud gyda llaw ac mae’n gallu cuddio mewn ardal gysgodol yn eich gardd chi!). Byddai Grŵp Garddio clên Cletwr wir yn croesawu aelodau newydd. Does dim angen profiad, dim ond brwdfrydedd ac mae’n gyfle gwych i ddysgu tipyn am arddio a chyfrannu at gynnal a chadw ein gerddi arobryn. Rydyn ni’n tueddu i gynnal sesiwn unwaith y mis ond peidiwch â phoeni os na fedrwech chi ddod bob tro. Beth am ddod i gwrdd â ni 24 Ebrill pan fydd y Grŵp yn cael sesiwn arddio yr un pryd â Gŵyl Wanwyn Cletwr, gyda gweithdy gwneud peli blodau hadau gwyllt, stondin blanhigion a blodau Grace Crabb a danteithion blasus y siop fegan Iwtopia?

Wedyn, bydd cyfle arall i ymuno yn yr hwyl ar 21 Mai pan fyddwn ni’n cynnal Gŵyl y Peillwyr. Bydd gweithgareddau cyffrous i blant ac oedolion, stondin yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn, gwybodaeth am arddio i beillwyr a llawer mwy.

Da chi, nodwch y dyddiadau a dewch i ddathlu natur gyda ni!

Siân Saunders

Clwb CFFl Tal-y-bont



Ioan, Lois ac Elan yn dathlu eu llwyddiant.

Bu’r Clwb yn brysur gyda’r cystadlu yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth. Llongyfarchiadau mawr i Lois Jones, Ioan ac Elan Mabbutt am gipio’r wobwr gyntaf am y Tîm Darllen gorau dan 14 oed yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg Ceredigion yn Felin Fach ar y 19 Chwefror. Cafodd Lois lwyddiant arbennig gan ddod i’r brig fel y Cadeirydd gorau ac fel y Darlennydd gorau gydag Ioan yn cipio’r ail wobwr ac Elan y drydedd wobwr i’r Darllenydd gorau. Llongyfarchiadau hefyd i ail dîm Tal-y-bont sef Caoimhe Melangell Pennant, Llio Tanat a Lleucu Nest a lwyddodd i gipio’r drydedd wobwr yn y gystadleuaeth gyda 12 o dimau yn cystadlu. Tipyn o gamp i’r Clwb! Aeth Lois, Ioan ac Elan ymlaen i gynrychioli Ceredigion yng nghystadleuaeth Darllen Iau Cymru ar y 27 Mawrth gan gipio’r drydedd wobwr fel tîm. Cafodd Lois ac Elan ddiwrnod prysur gan eu bod yn cynrychioli Ceredigion yn y gystadleuaeth Darllen Iau Saesneg hefyd yng nghwmni Fflur McConnell o glwb Mydroilyn. Llwyddodd y tair i gipio’r drydedd wobwr. Llongyfarchiadau mawr i bawb ac i Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont, a fu’n hyfforddi’r timau.

Y Gair Olaf



Cwrcyn oedd e, blewiach prin ar ei gorff a’i lygaid melyn yn sbecian ar bawb yn ddrwgdybus. Yn ôl ei berchennog, Prussian Blue pur ei waed ond ym marn y gwybodusion canlyniad cyplu ffyrnig rhwng cath goch Mari Tŷ Top a mwngrel gwyllt o’r goedwig. Yn ei gartref cawsai bob moethusrwydd – danteithion ar fowlen arian a gwely cyfforddus o wllan cynnes. Er ei linach amheus roedd ganddo frodyr a ffrindiau dylanwadol, y rhain hefyd yn byw mewn stad freintiedig ond nemor un yn uwch ei statws nag ef.

Bu unwaith yng ngardd ei berchennog bwl bychan yn llawn pysgod aur ond fe’i bwytawyd un ac oll gan y cwrcyn barus. Bellach treuliai oriau wrth y pwll yn codi ei bawen chwareus at y teganau yn y dŵr, llongau bychain ac ambell drysor drudfawr.

Yn ystod y dydd arferai browlan gerddi cymdogion gan gachu a gollwng ei ddrewdod ar hyd y borderi – y blodau a’r llysiau fel ei gilydd. Arweiniodd hyn at gwyno a phrotestiadau. I ddim pwrpas – ni chlywai ei berchennog air yn ei erbyn ac er y tomenni o dystiolaeth honnai na fyddai ei chwrcyn bach hoffus fyth yn euog o’r fath gamwedd.

Fel pob cwrcyn roedd yn ymladdwr greddfol, ei ewinedd miniog yn cyson ysu am ffeit. Hyd yn hyn bu’n fuddugoliaethus, creithiau ei ormes waedlyd yn eglur ar sawl Pws a’i sgrechfeydd liw nos yn codi braw ar gathod y gymuned.

Creadur bygythiol a chas felly. A dweud y gwir, yr unig beth da amdano oedd ei enw – Pwtyn. Geraint Evans

Chwaraeon a Hamdden

Cymru un gêm i ffwrdd o gyrraedd Cwpan y Byd



Gareth Bale prif sgoriwr Cymru
(Hawlfraint: Cymdeithas Bêl-droed Cymru)

Dros flwyddyn ers i ymgyrch Cymru ar gyfer Cwpan y Byd gychwyn, mae’n saff dweud fod yr ymgyrch wedi bod yn un llwyddiannus, gyda Cymru yn llwyddo i sicrhau lle yn y gemau ail gyfle. Awstria oedd y gwrthwynebwyr yn y rownd gyn-derfynol. Anerchodd Dafydd Iwan y dorf gan ganu ‘Yma o Hyd’ cyn y gêm ac roedd ’na deimlad arbennig yn yr awyr yn enwedig ar ôl anthem angerddol arall gan y dorf. Roedd y llwyfan wedi ei osod a llygaid pawb ar yr un Cymro ar ddeg ar y cae.

Dechreuad bach yn flêr oedd i’r gêm, ac ar ôl i Christoph Baumgartner daro’r trawst i Awstria ar ôl pedwar munud, tyfodd Cymru i fewn i’r gêm a rheoli’r meddiant. Ar ôl 25 munud, enillodd Harry Wilson gic rydd ar gyrion cwrt cosbi Awstria. Y dyn ei hun, Gareth Bale a gamodd i fyny i gymryd y gic. Curodd y wal, a’r gôl-geidwad Lindner, gan nythu’r bêl yng nghornel dde’r rhwyd a’r 33,000 yn y dorf yn gorfoleddu. Gydag awyrgylch trydanol yn y stadiwm, sgoriodd Cymru eto wedi 51 munud. Symudiad cic gornel a oedd yn amlwg wedi ei pharatoi o flaen llaw a arweiniodd Gareth Bale i chwipio’r bêl i fewn i’r rhwyd gan roi bach o ryddhad i’r dorf, a goleuni rhwng y ddau dîm.

Cit Newydd



Dyma Luke Baker, cyfarwyddwr LEB Construction yn cyflwyno cit newydd sbon i Mark Evans, rheolwr tîm dan 9 oed Tal-y-bont. Hefyd yn y llun mae hyfforddwr y tîm Oli Ankin.

Ceisio taro ’nôl wnaeth Awstria wrth iddynt ddod â’r ymosodwr tal, corfforol, Sasa Kalajdzic ymlaen i greu problemau i amddiffyn Cymru. Daeth Awstria yn ôl i fewn i’r gêm erbyn y diwedd, gydag ergyd Marcel Sabitzer yn adlamu oddi ar Ben Davies i fewn i’w rwyd ei hun. Ond, fe gafodd Cymru fwy o gyfleon tra’n gwrthymosod gyda Dan James yn methu cyfleoedd euraidd i sgorio. Buddugoliaeth enwog i Gymru felly gyda’r cefnogwyr yn dathlu ar strydoedd Caerdydd tan oriau mân y bore. Hyn oll yn golygu y byddant yn chwarae naill ai’r Alban neu Wcráin yng Nghaerdydd yn ffeinal y gemau ail gyfle ym mis Mehefin.

Chwaraeodd Cymru gêm gyfeillgar yn erbyn y Weriniaeth Siec ychydig o ddiwrnodau wedyn a oedd yn gyfle i orffwys prif chwaraewyr Cymru, rhoi cyfle i’r to ifanc ac yn gyfle i nodi canfed cap Wayne Hennessey, y trydydd dyn i gyrraedd y garreg filltir honno. Dechreuodd Rhys Norrington-Davies y gêm honno hefyd wrth iddo dderbyn ei seithfed cap rhyngwladol. Cafodd Rhys hwyl dda fel cefnwr chwith yn y gêm gyfartal hon, gyda Rubin Colwill yn sgorio ei gôl gyntaf i’w wlad, ychydig funudau ar ôl i Tomas Soucek rwydo dros yr ymwelwyr. Rhaid aros nawr tan fis Mehefin i weld ai yn erbyn yr Alban neu Wcráin y bydd Cymru yn chwarae yn y ffeinal, ond yn sicr bydd tîm Robert Page yn mynd i fewn i’r gêm yna yn llawn hyder.

Eilir Huws



bow-wow

dwmdwms

pi-po

mw-mw

beibeis

Cynllun Siarad Babi

Pa eiriau 'dych chi'n ddefnyddio wrth siarad babi?

'Dyn ni eisiau eu clywed i gyd!

Ry'n ni, ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, eisiau casglu'r eirfa ry'ch chi'n ei ddefnyddio (neu wedi eu defnyddio) gyda babanod eich teulu chi. Ry'n ni am gasglu'r geiriau er mwyn eu rhannu gyda siaradwyr Cymraeg newydd er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn y ffordd fwyaf naturiol posib gyda'u plant o'r cychwyn cyntaf un.

www.meithrin.cymru/siaradbabi



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



CYMRAEG
Dysgu Learn

